



CYFARFOD	Cydbwyllgor GwE
DYDDIAD	20 Chwefror 2019
TEITL	Cyllideb Sylfaenol 2019/20
PWRPAS	Cyflwyno i'r Cydbwyllgor : <ul style="list-style-type: none">• Cyllideb Sylfaenol GwE 2019/20 (Atodiad 1)• Cyfraniadau Ariannol yr Awdurdodau (Atodiad 2)
ARGYMHELLIAD	Mabwysiadu'r gyllideb sylfaenol ar gyfer 2019/20 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1.
AWDUR	Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd

1. Cyllideb Sylfaenol (“sefyll yn llonydd”)

- 1.1 Mae cyllideb GwE yn parhau i ddatblygu ac mae bellach yn adlewyrchu ymrwymadau busnes craidd y Model Cenedlaethol a nifer sylweddol o brosiectau a ariennir trwy grant.
- 1.2 Mae effaith ariannol chwyddiant/cynnydd mewn prisiau wedi'u hamcangyfrif a'u cynnwys yn y gyllideb sylfaenol (ar sail “sefyll yn llonydd”), gan gynnwys codiadau cyflog a chynnydd CPI.

2. Targed Arbedion

- 2.1 Mae'r gyllideb atodol yn adlewyrchu penderfyniad Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru ar 13 Tachwedd 2018 i gynnwys targed arbedion sy'n cyfateb i leihad o 1% yn nhermau arian, yng nghyfraniadau craidd y 6 awdurdod cyfansoddol. Golygai hyn toriad yn nhermau real o 3.19% ar ôl cynnydd mewn costau.
- 2.2 Gweler ar linell "Arbedion 2019/20 i'w Darganfod" y swm (£116,468), sef y 3.19% uchod.
- 2.3 Gyda'r uchod a'r angen am gynllun parhaol ar gyfer arbedion 2018/19, ynghyd â'r mater yn 3.1 isod mae angen darganfod cyfanswm cronus arbedion o £206,485 ar gyfer 2019/20.

3. Cyflenwadau a Gwasanaethau

- 3.1 Mae'r pennawd yma yn gorwario yn flynyddol am nifer o resymau, ac felly'n amlygu bod y gyllideb yn annigonol i bwrpas. Cynyddir y gyllideb drwy sefydlu llinell arbedion i'w darganfod, er pwrpas amlygu'n broblem hir dymor sydd angen ei ariannu (wedi'i gynnwys yn llinell 2.3 uchod).

4. Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol

- 4.1 Mae'r setliad Llywodraeth Leol 2019/20 yn amlygu bod dim toriad yn nhermau arian i'r elfen Grant Gwella Addysg o'r grant yma, ond oherwydd cynnydd mewn costau mae hyn yn golygu toriad real. Er nid yw gwybodaeth am weddill y grant wedi cyrraedd, sefydlir y gyllideb gerbron ar run sail â'r Grant Gwella Addysg (gan diystyru dyraniadau ychwanegol derbyniwyd yn y flwyddyn Ariannol 2018/19).

4.2 Mae rhan 4.1 yn amlygu her ariannol posib ychwanegol i'r GwE uwchben y hyn amlygir yn 2.3

5. Cronfa Tanwariant

5.1 Mae'r adroddiad 'Cyllideb GwE 2018/19 - Adolygiad Chwarter 3' (eitem flaenorol ar raglen y Cydbwyllgor) yn amcangyfrif bydd oddeutu £273,234 yn y gronfa tan wariant ar 31/03/2019.

5.2 Bydd angen clustnodi rhan briodol o'r gronfa ar gyfer pontio unrhyw elfen o'r arbedion i'w darganfod (para 2.3 uchod), os ni all GwE ddarganfod yr holl arbedion yn ystod 2019/20.

Atodiadau:

Atodiad 1 - Cyllideb Sylfaenol GwE ar gyfer 2019/20

Atodiad 2 - Cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol 2019/20

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyd-awdur yr adroddiad.